Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru

Dormant Assets
Sustainable Steps Wales

Cyflwynir gan
CRONFA GYMUNEDOL Y LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

# Creu eich Lle

## Adroddiad cryno

OB3 Ymchwil Research

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 3
Egwyddorion sylfaenol, methodoleg, nodau ac amcanion ........ 4
Llwyddiannau'r prosiect a'r rhwystrau i lwyddiant ........ 7
Effeithiau a Gwaddol ........ 10
Cynaliadwyedd tymor hir y prosiectau ........ 14
Gweinyddu'r prosiectau ........ 15
Casgliad ........ 16
Argymhellion ar gyfer y dyfodol ........ 17
Atodiad A ........ 18
Crynodeb o'r prosiectau ........ 19

# Cyflwyniad

Creu eich Lle' yn raglen saith mlynedd a oedd yn weithredol rhwng 2017-2024. Ariannwyd y rhaglen gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ynghyd â'r Cynllun Asedau Segur. Ariannwyd chwe phrosiect gyda chyfanswm y grantiau werth £7.488 miliwn. Comisiynodd y Gronfa OB3 i werthuso Creu eich Lle. Mae'r adroddiad cryno hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r gwerthusiad i ddeiliaid grantiau, gan eu galluogi i nodi'r dysgu allweddol ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, ac i adlewyrchu ar y gwaith rhagorol a wnaethpwyd. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o Creu eich Lle ei hunan, y prif ganlyniadau a'r allbynnau allweddol, rhai o brif uchafbwyntiau'r prosiectau unigol a rhai o'r gwersi a ddysgwyd a'r argymhellion ar gyfer unrhyw raglenni tebyg yn y dyfodol.

Nod Creu eich Lle oedd trawsnewid mannau awyr agored mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy. Roedd yn canolbwyntio ar ddod ag aelodau'r gymuned ynghyd i lywio a chyflawni ar ran eu cymunedau. Tri canlyniad sylfaenol y rhaglen oedd i:

1. Gael pobl lleol i gymryd rhan yn llawn wrth lywio trawsnewidiad eu mannau awyr agored lleol
2. Galluogi pobl i drawsnewid y ffordd y maen nhw'n ystyried mannau awyr agored ac yn eu defnyddio
3. Cefnogi sefydliadau a chymunedau i gael mwy o hyder i weithredu trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gwella eu cymunedau lleol.

Mae tabl o'r prosiectau, ynghyd â chrynodeb o bob prosiect i'w gweld yn Atodiad A ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

# Egwyddorion sylfaenol rhaglen Creu eich Lle

Dyluniwyd y rhaglen gyda'r egwyddorion canlynol mewn golwg:

- Ymgysylltiad ac ymwneud ystyrlon â'r gymuned – cyfranogiad pwrpasol
- Partneriaeth a chydweithio cadarn a thryloyw
- Dod i benderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn
- Adnabod anghenion a chyfleoedd
- dull cyfannol o gyflawni buddion lluosog yn gydlynol
- Creu ymgysylltedd
- Ategu ac ychwanegu at raglenni a mentrau ehangach
- Cynllunio strategol, amserlenni effeithiol a chyflawni fesul cam
- Hyblygrwydd o ran ariannu a chyflawni
- Sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol
- Dysgu a chefnogi cyflawniad yn effeithiol
- Personél penodol a gwybodus
- Monitro a mesur allbynnau ac effaith mewn modd arloesol

## Methodoleg

Roedd y fethodoleg (hynny yw, y dulliau ymchwil) a ddefnyddiwyd gan OB3 yn cwmpasu cyfuniad o adolygiadau wrth ddesg o ddogfennau ac adroddiadau blaenorol Creu eich Lle, ynghyd ag arolygon a chyfweliadau i gael darlun o lygad y ffynnon gan bobl a oedd yn ymwneud â'r rhaglen. Derbyniwyd 39 o ymatebion i'r arolwg gan brosiectau gwahanol, yn ogystal â chyfweliadau gyda dau gynrychiolwr o'r Gronfa a 25 o gynrychiolwyr ar draws y chwe phrosiect. Caniataodd hyn i OB3 ddeall yn llawn sut gweithredodd rhaglen Creu eich Lle, a galluogodd i leisiau'r bobl a gymerodd ran yn y prosiectau i lunio rhan annatod o'r gwerthusiad yn ei gyfanrwydd.

## Nodau ac amcanion rhaglen Creu eich Lle

Mae Creu eich Lle wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth fuddsoddi mewn llefydd a chymunedau a oedd angen cefnogaeth, gan bwysleisio fod yr ariannu wedi ei ddyrannu'n addas rhwng y chwe phrosiect. Roedd diffyg unrhyw fannau gwyrdd o ansawdd yn rhai o'r ardaloedd yn y lle cyntaf, tra bod eraill ddim yn gwneud defnydd o'r mannau gwyrdd oedd ar gael iddynt. Fe wnaeth Creu eich Lle fynd i'r afael â'r ddau fater yn llwyddiannus.

Roedd rhoi pobl wrth y llyw yn agwedd bwysig o'r rhaglen, ac fe gyflawnwyd hyn yn gyffredinol trwy gefnogi pobl i arwain ar drawsnewid mannau awyr agored yn eu cymunedau penodol. Roedd y prosiectau mwyaf llwyddiannus am wneud hyn yn cael eu harwain gan sefydliadau cymunedol seiliedig ar le, gan olygu eu bod yn sefydliadau a oedd yn gweithredu'n benodol o fewn y cymunedau lle roedd y prosiect wedi ei leoli. Roedd hyn yn egwyddor sylfaenol pwysig i'r rhaglen, gyda'r arian yn cael ei fuddsoddi i mewn i gymunedau'n seiliedig ar le. Pobl o'r cymunedau eu hunain sydd orau am ddeall anghenion y

gymuned lleol, ac fe ddangoswyd fod y prosiectau cymunedol seiliedig ar le yn dangos mwy o ymgysylltu cymunedol ystyrlon na' r rhai a oedd yn gweithredu o du allan i'r ardal. Roedd gwir ymdeimlad o gyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu yn y prosiectau cymunedol seiliedig ar le, a dylai fod yn gonglfaen unrhyw brosiect cymunedol llwyddiannus.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Dyluniwyd y rhaglen fel bod ei nodau yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hwn yn ddarn o ddeddfwriaeth yng Nghymru sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae tystiolaeth helaeth fod y prosiectau wedi cyfrannu'n gadarnhaol tuag at nodau llesiant y Ddeddf, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Roedd **Croeso i'n Coedwig** yn esiampl dda, gyda'r prosiect yn nodi mai nhw oedd y gymuned gyntaf yng Nghymru i ddehongli'r Ddeddf i mewn i ganlyniad cyrraeddadwy, y gall pobl lleol ei ddeall yn llawn. Mae'n galonogol i weld fod prosiectau Creu eich Lle nid yn unig yn gweithredu ar egwyddorion cyffredinol Creu eich Lle ond hefyd deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'i nodau. Dylid canmol y llwyddiant hwn, a dylai prosiectau cymunedol yn y dyfodol ei ddefnyddio fel model o sut i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Ymgysylltu â'r gymuned

Amrywiodd y lefelau o ymgysylltu cymunedol dros y chwe phrosiect. Roedd **Gweledigaeth Ynysybwl** a **Croeso i'n Coedwig** yn eithriadol o lwyddiannus wrth ymgysylltu â'r gymuned, yn bennaf oherwydd eu bod wedi eu harwain gan sefydliadau a oedd a phresenoldeb cryf yn eu cymunedau. Nododd gweithwyr prosiect hefyd bwysigrwydd bod mewn cymuned a oedd a gwir angerdd dros eu hardal leol, a alluogi i'w hymrwymiad a'u hymdeimlad o berthyn i ddisgleirio. Roedd hyn yn amhrisiadwy i lwyddiant y ddau brosiect hyn.

Nododd prosiectau eraill lefelau is o ymgysylltiad cymunedol, ond nid oedd hyn o ganlyniad i ddiffyg ymdrech, yn hytrach ffactorau lliniarol fel pandemig COVID. Dechreuodd **Ein Gardd Gefn** a **Llwybrau Lles Coetiroedd** o sylfaen llawer is na phrosiectau eraill, felly roedd lefelau cyffredinol is o ymgysylltu cymunedol i'w disgwyl yma. Roedd ymatebion yr arolwg mewn perthynas â chynaliadwyedd ymgysylltiad cymunedol yn gadarnhaol, gan awgrymu y bydd parhad mewn ymgysylltiad cymunedol yn cynnal y prosiectau Creu eich Lle yn y tymor hir.

## Trefniadau llywodraethu

Roedd y trefniadau llywodraethu (hynny yw, y gweithdrefnau a'r systemau monitro sydd yn eu lle) yn amrywio rhwng prosiectau, gyda Cwlwm Seiriol a Llwybrau Lles Coetiroedd yn gwneud defnydd o waith partneriaeth i gyflawni eu prosiectau. Arweiniwyd Ein Gardd Gefn gan Groundwork North Wales, er y newidiwyd y grŵp llywio dros amser i roi mwy o gynrychiolaeth i'r gymuned ei hun, rhywbeth y dylid ei groesawu. Arweiniodd hyn i'r prosiect gyd-fynd yn well ag amcanion y rhaglen.

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros brosiect Croeso i'n Coedwig i Croeso i'n Coedwig Cyf pan ddaeth yn gwmni cyfyngedig cyfansoddedig yn ystod yr ail flwyddyn o weithredu. Mae hyn wedi bod yn drefniant llwyddiannus, gyda chyfleodd i bobl lleol ddod yn aelod o'r cwmni. Arweiniwyd Roots to Shoots gan Ymddiriedolaeth Treftadaeth Brymbo; elusen gofrestredig a arweinir gan fwrdd o ymddiriedolwyr. Daethpwyd a phartneriaid prosiect ychwanegol i mewn, fel Cadw a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Yn olaf, cyflawnwyd Gweledigaeth Ynysybwl gan Bartneriaeth Adfywio Ynysybwl. Cafwyd llywodraethu cryf gan y prosiect dros y cyfnod gweithredu, ac roedd gwir bwyslais ar gefnogi'r gymuned i gyflawni'r prosiectau eu hunain.

# Llwyddiannau'r prosiectau a rhwystrau i lwyddiant

Roedd dau brif ffactor a effeithiodd ar Creu eich Lle dros y cyfnod ariannu o saith mlynedd: y pandemig COVID–19 a materion trosglwyddo tir ac asedau. Trafodir y rhain isod.

## Y pandemig COVID–19

Cafodd pandemig COVID–19 effaith sylweddol ar gynnydd prosiectau rhwng Mawrth 2020 a chanol 2021. Effeithiodd ar argaeledd staff, dulliau o ymgysylltu â'r cymunedau a natur y ddarpariaeth wnaethpwyd ar gael. Fodd bynnag, dylid canmol ymateb y prosiectau, yn enwedig y rheiny a gyflwynwyd gan sefydliadau sy'n seiliedig ar le, achos roedden nhw'n gallu ymateb ar unwaith i anghenion a phroblemau lleol. Er bod rhai prosiectau wedi nodi fod y pandemig wedi effeithio ar ymgysylltu cymunedol a recriwtio gwirfoddolwyr yn y tymor hir, fe wnaeth y prosiectau Creu eich Lle oresgyn effeithiau'r pandemig ar y cyfan.

Profodd **Llwybrau Lles Coetiroedd** ganlyniad cadarnhaol annisgwyl o'r pandemig. Fe wnaeth Gardd y Golchdy or-dyfu, ac roedd staff yn methu a'i chynnal oherwydd cyfyngiadau COVID gan fod mynediad i'r ardd wedi ei wahardd. Fodd bynnag, oherwydd ei natur wyllt, daeth yn noddfa i fywyd gwyllt, ac mae'r safle bellach yn cael ei gynnal fel man bioamrywiol ac ecogyfeillgar. Mae gloÿnnod byw prin wedi cael eu gweld, yn ogystal â rhai pryfaid nad oeddent wedi eu gweld ers amser hir. Mae'r grwp gwirfoddol sy'n cynnal yr ardd yn bwriadu dal ati i'w chynnal fel safle bywyd gwyllt ar ôl i'r prosiect Creu eich Lle ddod i ben, gyda chefnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Dylid canmol y prosiect am ei wydnwch a'i hyblygrwydd, a dylid canmol y gwirfoddolwyr am eu hymrwymiad i gynnal yr ardd.

## Problemau trosglwyddo tir ac asedau

Effeithiodd problemau trosglwyddo tir ac asedau ar gyflawniad pedwar prosiect, ond fe wnaethant oresgyn y problemau hyn ar y cyfan, diolch yn rhannol i'r cyfnod saith mlynedd i ddatrys y problemau neu am gael hyd i ffordd arall o gyflawni canlyniadau tebyg. Mae hyn yn amlygu ymhellach fuddion y rhaglenni ariannu tymor hir y mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol bellach yn symud tuag atynt.

Goresgynnodd prosiect **Roots to Shoots** eu problemau trosglwyddo tir ac asedau yn llwyddiannus, er iddyn nhw gael trafferthion cychwynnol yn cael les tymor hir i'r tir. Fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a CADW ymyrryd a chwarae rhan allweddol wrth sicrhau fod pob un o'r prif bartïon eraill a chanddynt fuddiant oll yn gytûn ac yn ymroi i nodau'r prosiect. Cytunwyd ar y les yn y pendraw trwy 'ddyfalbarhad a gwydnwch llwyr' ac mae gweithwyr y prosiect yn obeithiol y bydd 90% o'r gwaith cyfalaf arfaethedig yn cael ei gwblhau cwblhau. Mae yno hefyd optimistiaeth y bydd y cytundeb hwn yn meithrin diddordeb newydd yn y gymuned, gyda chytundeb ar les tymor hir yn cynrychioli ymrwymiad i barhad y prosiect.

## Problemau eraill

Y problemau eraill a effeithiodd ar gyflawniad y prosiectau dros ail hanner rhaglen Creu eich Lle oedd:

1. **Cynnydd mewn costau** – Roedd yn rhaid i'r chwe phrosiect addasu i'r argyfwng costau byw yn ystod y ddwy flynedd olaf o weithredu
2. **Gweithio mewn partneriaeth** – Tra bod gweithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus ar y cyfan, nododd rhai prosiectau broblemau megis diffyg cydlyniad rhwng partneriaid, partneriaid yn canolbwyntio gormod ar eu blaenoriaethau sefydliadol eu hunain, ac yn olaf, problemau'n codi oherwydd pandemig COVID megis cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb
3. **Capasiti a staffio** – Ar y cyfan, llwyddwyd i ymateb yn dda i drosiant staff ar draws y prosiectau, yn enwedig y prosiectau hynny a oedd wedi'u gwreiddio'n dda yn eu cymunedau ac a oedd a threfniadau llywodraethu effeithiol. Fodd bynnag, effeithiwyd yn fwy ar brosiectau nad oeddent wedi'u gwreiddio yn y gymuned gan drosiant staff gan eu bod yn fwy dibynnol ar wybodaeth un person.

## Prif lwyddiannau'r prosiectau

Amlygir y tri prif lwyddiant ar gyfer pob un o'r prosiectau Creu eich Lle isod.

### Cwlwm Seiriol

- Gweithgareddau i ysgolion cynradd lleol megis gwaith coed glasgoed, crefft coedwig, dysgu am blanhigion, gwneud blychau adar a gweithdai barddoniaeth.
- Digwyddiadau cymunedol megis gwyliau cynhaeaf, gwyliau tocio coed, gwyliau coed Nadolig, gweithdai gwehydda basgedi, gweithdai lliw naturiol, yn ogystal â digwyddiadau i deuluoedd a phlant megis gweithgareddau ysgol goedwig
- Cyflwyno gweithgareddau i'r rhai a oedd yn mynychu llefydd cynnes yn Llandegfan

### Roots to Shoots

- Ymgysylltiad a chefnogaeth i grwpiau a arweinir gan wirfoddolwyr gan gynnwys Southsea, i ymgymryd â chynnal a chadw mannau gwyrdd, a Moss Valley, i wella dehongli a mynediad
- Gweithgareddau ar safle Brymbo, megis ysgol goedwig a sesiynau chwarae, cyflwyno cyrsiau fforio ac arolygon bioamrywiaeth, a lleoli cynhwysydd dros dro ar y safle i storio offer a gweithredu fel cnewyllyn i wirfoddolwyr
- Y gwaith ymgysylltu cychwynnol a chyflwyno gweithgareddau yn y gymuned, megis sesiynau ysgol goedwig yn ysgol St Marys a sesiynau chwarae cymunedol ar ddau safle

### Ein Gardd Gefn

- Gweithiodd y prosiect ar draws 14 man gwyrdd gwahanol yng Nghei Connah
- Lansiwyd menter y Cei Glân, sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau sbwriel a thipio anghyfreithlon
- Mae'r arian ychwanegol a sicrhawyd drwy'r Dreth Dirlenwi yn 2020 wedi gwella Gwlypdiroedd y Cei yn ogystal a'r warchodfa natur yn Llwyni a Broadoack Woods

### Gweledigaeth Ynysybwl

- Creu llwybrau cerdded drwy'r goedwig, sefydlu tri grŵp (rhedwyr, seiclwyr, a beicwyr) i helpu i gynnal y rhain
- Caffael safle'r Bwth i ddarparu hwb cymunedol a chyfleuster i'r ieuenctid
- Gwelliannau amgylcheddol yn cynnwys clirio, casglu sbwriel a chyflwyno sesiynau Tyfu i Flasu

### Croeso i'n Coedwig

- Creu cynllun trydan dŵr bychan Saerbren, a gynhyrchodd bron i 13,000kwh o drydan rhwng Chwefror 2021 a Chwefror 2022
- Creu llecyn yng nghoedlan Penyreglyn sy'n cael ei ddefnyddio gan grwpiau megis tîm ymgysylltu ag ieuenctid Valleys Kids
- Y prosiect Cylchdro Cnydau: ailddatblygwyd safle cyn orsaf betrol Tapper yn gyfleuster tyfu bwyd ac addysg ar y stryd fawr

### Llwybrau Lles Coetiroedd

- Clirio Coedwig Duffryn, cael gwared ar sbwriel a thipio anghyfreithlon, a mynd i'r afael ag ardaloedd o ordyfiant yn y goedwig
- Datblygiad cyfalaf adeilad a gardd y Golchdy yn Nhŷ Tredegar, sydd bellach yn cael ei gynnal gan wirfoddolwyr a'i ddefnyddio gan gyfranogwyr Growing Space
- Cyflwyno sesiynau chwarae agored i blant lleol, gyda dros 900 o blant wedi ymgysylltu a 12,000 o ymweliadau unigol wedi ei gwneud. Mae'r prosiect wedi creu man diogel i blant chwarae, mwynhau a dysgu am natur

# Effeithiau a Gwaddol

Bydd y rhan hon yn crynhoi y gwahaniaeth a wnaeth y prosiectau, gan gyfeirio at chwe prif effaith.

### Effaith 1

**Mae mannau awyr agored ac amgylcheddau lleol wedi eu gwella, ac mae mannau awyr agored hygyrch wedi cael eu creu**

Llwyddodd pob prosiect i gyflawni hyn i wahanol raddau. Roedd staff o Gweledigaeth Ynysybwl yn nodi fod y prosiect wedi bod yn hanfodol i 'greu'r mannau lle gall pethau ddigwydd', ac roedd staff o Croeso i'n Coedwig yn pwysleisio fod y prosiect 'wedi rhoi gofod i bobl dyfu' yn Nhreherbert. Un o uchafbwyntiau prosiect Croeso i'n Coedwig oedd caffael Safle yr Old Rhondda Brewery a gafodd ei ddatblygu i mewn i hwb gweithgaredd coedwigaeth i gefnogi prosesu coed ar raddfa fach. Cafodd hefyd ei ddatblygu i mewn i ofod iechyd a llesiant.

Mae tystiolaeth dda fod y prosiectau wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i wella eu hamgylcheddau lleol, trwy wella a chynnal mannau awyr agored gwyrdd yn eu cymunedau. Gellir grwpio'r gwelliannau i'r rhai sy'n canolbwyntio ar:

- Wella cynefinoedd
- Mynediad i fannau gwyrdd, gan gynnwys gwelliannau ffisegol, gosod arwyddion newydd a llwybrau digidol
- Datblygu asedau cymunedol newydd
- Clirio sbwriel a thipio anghyfreithlon.

---

### Effaith 2

**Mae cysylltiadau yn eu lle rhwng sefydliadau lleol a chymunedol**

Mae hyn yn cysylltu'n ôl i bwysigrwydd yr ymgysylltiad cymunedol a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Amrywiodd lefelau'r ymgysylltiad cymunedol rhwng y prosiectau gwahanol. Roedd **Croeso i'n Coedwig** yn enwedig o lwyddiannus trwy sefydlu cysylltiadau a hwyluso trafodaethau rhwng cymunedau lleol a sefydliadau cenedlaethol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, fel rhan o'r prosiect Valleys Skyline. Roedd pob prosiect yn gallu dangos tystiolaeth glir o gydweithio ehangach gan weithio gydag ystod o wahanol sefydliadau a grwpiau cymunedol.

---

### Effaith 3

**Mae aelodau o'r gymuned a gwirfoddolwyr wedi cyfrannu'n ystyrlon i'r broses o ddylunio a chyflawni'r prosiect ac wedi cymryd mwy o reolaeth o'u hamgylchedd lleol**

Cyflawnwyd hyn yn llwyddiannus ym mhob prosiect, gyda thystiolaeth fod rhai wedi ymgynghori'n eang cyn ac yn ystod cyflawni'r prosiect. Roedd gan fuddiolwyr ran fawr, gan fod pob un wedi defnyddio gwirfoddolwyr i helpu i wella a chynnal mannau gwyrdd lleol. Yn ddiddorol, roedd buddiolwyr gyda mwy o ran yn y cam dylunio a datblygu'n hytrach

na’r cam cyflawni, gydag adborth gan OB3 yn dangos fod cymunedau gyda mwy o ran yn y broses gwneud penderfyniadau. Dylai hyn fod yn ystyriaeth mewn unrhyw brosiectau tebyg yn y dyfodol, gyda phwyslais ar sicrhau fod gwirfoddolwyr yn cadw diddordeb ac yn frwdfrydig trwy gydol yr holl broses. Fodd bynnag, dylid nodi fod gan y pandemig COVID–19 ran yn hyn, gan effeithio gallu prosiectau i recriwtio gwirfoddolwyr.

Fodd bynnag, roed llwyddiannau clir yn ystod cam cyflawni rhai prosiectau. Er enghraifft, yn ystod prosiect **Cwlwm Seiriol**, fe wnaeth y gwirfoddolwyr hŷn nodi eu bod yn teimlo’n llai ynysig a’u bod wedi elwa ar ddatblygiad rhwydwaith cefnogaeth personol newydd. Mae hyn yn tystio i’r ymdeimlad o gymuned a gafodd ei feithrin yn ystod y prosiectau, ac yn dangos gallu prosiectau cymunedol i ddod a gwirfoddolwyr ynghyd a meithrin cyfeillgarwch.

Roedd prosiectau yn gallu arddangos fod cymunedau lleol wedi cymryd mwy o reolaeth ar eu hamgylchedd lleol, er bod peth ansicrwydd ynglŷn ag os bydd hyn yn cael ei gynnal wedi i’r arian prosiect ddod i ben. Un uchafbwynt oedd **Croeso i’n Coedwig**, lle roedd tystiolaeth rhagorol fod y gymuned yn cymryd mwy o reolaeth dros eu hamgylchedd lleol. Sefydlwyd sefydliad cymunedol a arweinir gan aelodaeth yn Nhreherbert, ynghyd â chreu grwpiau cymunedol amrywiol sydd nawr yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr yn y gymuned. Roedd prosiect Gweledigaeth Ynysybwl hefyd yn llwyddiannus, roedd yn glir bod y gymuned wedi cymryd perchnogaeth o fannau gwyrdd lleol, ac mae gwahanol grwpiau diddordeb yn parhau i reoli’r asedau cymunedol o gafodd eu gwella trwy Creu eich Lle. Mae Pwll Butcher’s Pool a Caban Guto yn enghreifftiau rhagorol o hyn, gyda gwirfoddolwyr lleol wedi cymryd cyfrifoldeb dros y safleoedd.

## Effaith 4

### Cynyddu cydlyniad cymunedol a balchder mewn lle

Fe wnaeth y rhan fwyaf o brosiectau Creu eich Lle helpu i gynyddu balchder cymunedol mewn lle a gwella chydlyniant, er bod gweithio mewn partneriaeth yn anodd ar adegau. Gweithiodd **Croeso i’n Coedwig** gyda grŵp amrywiol o bobl, a chydweithio gyda Avanti Cymru, artistiaid Hip Hop Cymraeg, artistiaid lleol ac eraill i gyflwyno sesiwn Hydro Jam yn ystod 2021. Nododd adroddiad blynyddol y prosiect fod ‘rhywbeth arbennig yn ymwneud a chynhwysiant yn ein cefn gwlad wedi digwydd yn yr Hydro Jam yn Nhreherbert y llynedd’. Hefyd, roedd adborth hynod o gadarnhaol am sut roedd prosiect **Ein Gardd Gefn** wedi cynyddu’r ymdeimlad o falchder yn yr ardal:

> “Heb brosiect Ein Gardd Gefn, byddai mannau gwyrdd Cei Connah wedi parhau i ddirywio a byddai mwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi ffynnu. Mae’r prosiect wedi rhoi ymdeimlad o falchder yn ôl i’r ardal.

**Effaith 5**

### Mae gwirfoddolwyr a phobl leol wedi ennill ystod eang o sgiliau a phrofiadau, ac mae prosiectau wedi creu busnesau cynaliadwy a chyfleoedd swyddi

Roedd y ddarpariaeth hyfforddiant yn y prosiectau yn gydran hanfodol, a llwyddodd pob prosiect i gyflwyno ystod eang o hyfforddiant ffurfiol ac achredig i gyfranogwyr a gwirfoddolwyr. Darparodd **Cwlwm Seiriol** ystod eang o gyrsiau hyfforddi i'w gwirfoddolwyr, gan ddysgu am ddulliau traddodiadol o gynnal mannau gwyrdd, megis gosod cerrig. Trefnodd **Llwybrau Lles Coetiroedd** hyfforddiant megis iechyd a diogelwch, rheola straen ac amrywiaeth o hyfforddiant amgylcheddol. Cyflwynodd y gweithwyr prosiect sesiynau chwarae hefyd, ac enillon nhw ystod o gymwysterau achredig gan gynnwys Dyfarniad 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae a Thystysgrif Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae. Dylid annog cynnig cyfleoedd am hyfforddiant achredig, gan ei fod yn caniatáu i weithwyr a gwirfoddolwyr ennill cydnabyddiaeth ffurfiol am eu gwaith da.
Cyflwynodd pedwar prosiect sesiynau addysgol i blant a phobl ifanc. Roedd yr adborth a gasglwyd gan bob prosiect yn hynod o gadarnhaol, gyda chyfranogwyr yn ennill gwybodaeth mewn lleoliad hwyliog, gyda chyfle i dreulio mwy o amser yn yr awyr agored. Roedd yr adborth gan staff ysgol mewn un prosiect yn eithriadol o gadarnhaol:

> “Cafodd y plant ddiwrnod gwych yn datblygu sgiliau newydd a gwahanol. Mae llawer o blant wedi eu datgysylltu o natur y dyddiau hyn a dangosodd y diwrnod hwn gymaint y maen nhw'n mwynhau eu hunain.”

Darparwyd cyfleoedd hyfforddi ac uwchsgilio i wirfoddolwyr ac i weithwyr, ac mewn rhai achosion, aeth gwirfoddolwyr yn eu blaenau i gyflogaeth o ganlyniad i'w profiad ar y prosiect. Adroddodd gwirfoddolwyr am gynnydd mewn hyder, gwelliant mewn rhyngweithio cymdeithasol a gwelliant mewn iechyd meddwl. Nododd gwirfoddolwr Caban Guto ei fod wedi rhoi ‘awch newydd am fywyd’ iddyn nhw, ac mae'n braf i weld bod Caban Guto wedi caniatáu i wirfoddolwyr ddatblygu cyfeillgarwch agos.

Yn debyg, nodwyd profiadau cadarnhaol gan wirfoddolwyr a oedd yn ymwneud ymwneud â phrosiect **Ein Gardd Gefn**. Nododd un gwirfoddolwr mai'r agwedd gymdeithasol ar wirfoddoli oedden nhw'n ei fwynhau fwyaf:

> “Rydyn ni wastad yn cael pobl lleol yn stopio am sgwrs ac yn rhoi adborth cadarnhaol. Dw i hefyd yn mwyhau dysgu am y bywyd gwyllt yn fy ardal yn fawr iawn a dysgu sgiliau ymarferol newydd fel pladuro,  plygu gwrychoedd a thocio coed.”

Mae'n glir fod gwirfoddolwyr prosiectau Creu eich Lle nid yn unig wedi ennill sgiliau hanfodol ond hefyd wedi datblygu cyfeillgarwch newydd a dod yn fwy cymdeithasol yn eu cymunedau.

Creodd pob prosiect ystod o gyfleodd hamdden newydd. Nid oedd hyn bob amser yn creu busnesau na swyddi cynaliadwy, ond fe wnaethant roi sgiliau a phrofiadau i wirfoddolwyr

a fydd o werth iddynt wrth sicrhau gwaith yn y dyfodol. Mae Creu eich Lle felly wedi helpu pobl i gael y sgiliau sy'n angenrheidiol i gael swyddi, yn hytrach na chreu swyddi'n uniongyrchol. Sefydlodd **Croeso i'n Coedwig** y cyfleuster Cylchdroi Cnydau, sy'n ofod tyfu bwyd a dysgu cymunedol sy'n ceisio mynd i'r afael a thlodi bwyd yn yr ardal. Mae'n cynnal dyddiau cymunedol, caffi 'bod yn iach' a chyfleoedd i ffeirio planhigion.

---

## Effaith 6

### Cynnydd yn y defnydd o fannau awyr agored gwyrdd, a gwell dealltwriaeth o fuddion mannau awyr agored i iechyd a llesiant

Cynyddodd pob prosiect y nifer o bobl leol sy'n gwneud defnydd o fannau awyr agored. Gwelodd y Butcher's Pool, sy'n rhan o brosiect **Gweledigaeth Ynysybwl**, gynnydd yn y nifer o ymwelwyr sy'n defnyddio'r cyfleuster, a sylwodd gweithwyr ar draws y prosiectau fod cynnydd yn y defnydd o lwybrau lleol a pharciau lleol. Un llwyddiant penodol oedd prosiect **Llwybrau Lles Coetiroedd**, a ddatblygodd dros 3,000m2 o dir ar gyfer defnydd cymunedol yng Nghoedwig Duffryn a Gardd y Golchdy yn Nhŷ Tredegar. Mae gwella'r llecyn awyr agored hwn wedi bod yn gyfle am sesiynau chwarae plant rheolaidd, gyda dros 10,000 o bobl wedi ymweld â'r sesiynau hyn dros saith mlynedd y cyfnod cyflawni. Caniataodd y sesiynau hyn i blant ddysgu sgiliau newydd a chwarae mewn amgylchedd awyr agored diogel wedi'i oruchwylio.

Adroddodd pob un o'r chwech prosiect eu bod wedi helpu i wella dealltwriaeth o werth llecynnau awyr agored i iechyd a llesiant. Cefnogwyd prosiectau hefyd gan symudiad cadarnhaol mewn agweddau tuag at yr awyr agored, a ddigwyddodd yn ystod y pandemig. Er enghraifft:

- Nododd rhanddeiliad yn **Ein Gardd Gefn**, 'Yng ngardd Quayscape a'r gwlypdiroedd, mae gwelliannau i'r isadeiledd wedi gwneud ymweld â'r safleoedd yn fwy pleserus. Mae dod â phobl ynghyd i ofalu am fannau gwyrdd wedi cael effaith anferthol ar lesiant'
- Yn **Llwybrau Lles Coetiroedd**, nododd cyfranogwyr fod gwell dealltwriaeth o werth mannau awyr agored ar gyfer iechyd a llesiant, a ddangoswyd gan y nifer uchel o deuluoedd a ymgysylltodd â'r sesiynau chwarae yn yr awyr agored
- Roedd gwelliant mewn llesiant yn thema gyffredin ar draws y prosiectau, gyda rhiant a oedd yn ymwneud â **Gweledigaeth Ynysybwl** yn nodi, 'Roedd yn hwyl ac yn dda i ni – rhieni, neiniau a theidiau a'r plant, roedd y tro cyntaf i lawer o'r plant wneud unrhyw beth ac fe roddodd lawer o falchder i ni yn ein gwaith, roedden ni wrth ein boddau yn ei wneud'.

# Cynaliadwyedd tymor hir

## Cynaliadwyedd y canlyniadau

Mae rhagolygon cryf y bydd **Croeso i'n Coedwig, Gweledigaeth Ynysybwl** a **Roots to Shoots** yn cynnal eu canlyniadau a'u gweithgareddau wedi i ariannu Creu eich Lle ddod i ben, yn bennaf oherwydd natur seiliedig ar le y sefydliadau hyn. Mae gan **Gweledigaeth Ynysybwl** gynlluniau ymadael clir ar gyfer eu prosiectau ac maent eisoes yn cael eu cynnal gan grwpiau gwirfoddol cadarn ac ymroddedig. Hefyd, maent wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau ffynonellau eraill o ariannu, megis gan Western Power Distribution a Chronfa Ffyniant Cyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae **Croeso i'n Coedwig** hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau ffynonellau eraill o ariannu, ac mae gan y prosiect gynlluniau uchelgeisiol i gynnal mentrau fel y safle Cylchdroi Cnydau. Yn olaf, mae **Roots to Shoots** wedi sicrhau estyniad di-gost am un flwyddyn gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gwblhau y gwaith cyfalaf a gynlluniwyd ar safle Brymbo.

Mae'r tri phrosiect arall yn annhebygol o barhau yn eu siâp a'u ffurf bresennol, a byddent yn wynebu heriau sylweddol i gynnal eu canlyniadau ar ôl i'r ariannu ddod i ben. Yn anffodus, mae sicrhau arian grant pellach ar lefelau digonol i gefnogi cyflogi gweithwyr ar y prosiectau eraill wedi bod yn anodd. Bydd hyn yn sicr o effeithio ar allu'r prosiect i gynnal eu canlyniadau ar ôl i'r ariannu ddod i ben, er na ddylai hyn danseilio'r gwaith da a gwblhawyd yn ystod gweithrediad y prosiectau.

Fodd bynnag, ni fydd y prosiectau'n peidio â bod yn gyfan gwbl, gan fod tystiolaeth y bydd rhai gweithgareddau'n parhau gan grwpiau gwirfoddol a sefydliadau partner. Bydd gwaith partneriaeth effeithiol yn hanfodol wrth sicrhau y gwneir hyn yn llwyddiannus, ac mae peth tystiolaeth fod hyn eisoes yn digwydd. Er enghraifft, gall elfen pori Llanddona **Cwlwm Seiriol** gael ei chymryd ymlaen gan bartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn, a dylid annog gwaith partneriaeth llwyddiannus fel hyn.

## Sicrhau ariannu pellach

Mae pump o'r chwe phrosiect wedi sicrhau o leiaf rhywfaint o ffynonellau pellach o ariannu dros y cyfnod cyflawni, fodd bynnag dim ond tri sydd wedi sicrhau ariannu i barhau cyflawni ar ôl Creu eich Lle.

# Gweinyddu'r rhaglen

## Rôl Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Mae'r prosiectau wedi bod yn gadarnhaol ynglŷn â'r rôl y mae Swyddogion Ariannu wedi ei chwarae. Amlygwyd eu hyblygrwydd a'u hempathi fel cryfderau, ac roedd prosiectau'n gwerthfawrogi fod y swyddogion yn cadw mewn cyswllt agos â nhw dros y cyfnod cyflawni.

Ystyriodd y prosiectau fod Creu eich Lle wedi bod yn ffynhonnell ardderchog o ariannu o ystyried y cyfnod ariannu tymor hir a'r hyblygrwydd a gynhigiwyd gan y Gronfa i ganiatáu ar gyfer amgylchiadau ac anghenion a oedd yn newid. Nodwyd bod y dull yn enwedig o ddefnyddiol o ystyried digwyddiad annisgwyl y pandemig COVID a'r argyfwng costau byw diweddar.

Nododd y prosiectau a rhanddeiliad fod y diddordeb ehangach yn Creu eich Lle ar lefel fwy strategol yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac yn Llywodraeth Cymru wedi pylu dros amser o bosibl. Roedd awgrymiad y gall y diffyg diddordeb hwn olygu fod gwersi gwerthfawr o'r prosiectau fod wedi eu colli.

## Cydweithio

Bu digwyddiadau rhwydweithio rheolaidd rhwng y prosiectau Creu eich Lle, a gwerthfawrogwyd hyn yn fawr, gydag un rhanddeiliad yn nodi mai 'dyma le mae'r hud yn digwydd'. Roedd y digwyddiadau rhwydweithio yn gyfle i weithwyr prosiect gydweithio, rhannu profiadau a dysgu gan ei gilydd. Oherwydd y pandemig COVID, roedd symudiad i ddigwyddiadau rhwydweithio ar-lein, ond croesawyd hyn gan fod y prosiectau'n ddaearyddol wasgaredig ar draws Cymru. Defnyddiwyd ymagwedd hybrid wedi hyn, ac roedd adborth ar y digwyddiadau rhwydweithio yn eithriadol o gadarnhaol, ac yn dyst i barodrwydd y prosiectau i ddysgu a rhannu profiadau gyda'i gilydd.

# Casgliad

Isod mae cwmwl geiriau o adroddiad OB3, ac ynddo mae rhai geiriau a ddefnyddiwyd gan gynrychiolwyr prosiectau yn yr arolwg i ddisgrifio prosiectau Creu eich Lle:




Roedd rhaglen Creu eich Lle yn raglen uchelgeisiol ond llwyddiannus. Darparodd gyfleoedd ariannu tymor hir gan alluogi cymunedau i drawsnewid eu llecynnau gwyrdd lleol mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy. Defnyddiodd pob un o'r chwe prosiect eu harian yn addas, ac roedd ymdrech amlwg i alinio prosiectau gydag amcanion Creu eich Lle a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gwnaeth y prosiectau gyfraniad cadarnhaol i wella eu hamgylcheddau lleol ac mae pob un wedi cyflawni ystod eang o weithgareddau'n llwyddiannus yn eu cymunedau.

Er bod yr uchod yn dangos cryfderau'r prosiect yn glir, roedd gwendidau hefyd. Dim ond tri o'r prosiectau sydd, neu sydd â'r potensial, i fod yn wirioneddol drawsnewidiol o ran y modd y mae pobl leol yn arwain mewn ffordd ystyrlon. Roedd hyn o ganlyniad yr ymagwedd 'gwaelod i fyny' i ddylunio prosiect, ac fe ganiataodd i'r prosiectau ddarparu 'lle i bobl dyfu'. Roedd prosiectau a oedd yn fwy 'top i lawr' yn y ffordd y cawsant eu dylunio ddim yn gwir wreiddio gweithgareddau i'w cymunedau, sy'n rhannol yn ganlyniad o gael eu cyflawni gan sefydliadau nad ydynt wrth wraidd y gymuned.

# Argymhellion ar gyfer y dyfodol

## Hanfodion dylunio rhaglen dda

- Dylid cyflwyno cam datblygu chwe mis i ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer
- Cyfnod sylfaen o flwyddyn i ganiatáu i brosiectau recriwtio gweithwyr, ymgymryd ag ymgysylltu cymunedol a sefydlu cytundebau mynediad tir a safleoedd
- Hyblygrwydd i'r ariannwr mewn perthynas ag ariannu ac allbynnau prosiect
- Darpariaeth darparwr cymorth dysgu i gefnogi prosiectau a ariennir

## Rhai argymhellion pellach

1. Dylai Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ystyried cyflwyno arolwg tymor canol o brosiectau a ariennir am dymor hir yn y dyfodol i fynd i'r afael â materion cyflawni sylweddol
2. Dylai Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ystyried dyfarnu ariannu dim ond i'r ymgeiswyr sydd eisoes â threfniadau trosglwyddo tir a mynediad yn eu lle neu nad ydynt yn ddibynnol ar drosglwyddo tir i gyflawni eu nodau ac amcanion
3. Dylai unrhyw raglen debyg a ariennir ofyn i brosiectau gyflwyno cynllun busnes wedi'i gostio'n llawn fel rhan o adolygiad tymor canol
4. Dylai unrhyw raglen debyg a ariennir gynnwys darpariaeth ar gyfer darparwr cymorth dysgu a hwylusydd rhwydwaith

# Atodiad A

| Prosiect | Lleoliad | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen | Ariannu |
|---|---|---|---|---|
| **Cwlwm Seiriol** | Ward Seiriol , Ynys Môn | 1 Medi 2017 | 31 Awst 2024 | £1,098,000 |
| **Roots to Shoots** | Brymbo, Wrecsam | 1 Mehefin 2017 | 1 Mehefin 2025 | £1,996,482 |
| **Ein Gardd Gefn** | Cei Connah, Sir y Fflint | 1 Tachwedd 2017 | 31 Hydref 2023 | £649,941 |
| **Gweledigaeth Ynysybwl** | Ynysybwl, Rhondda Cynon Taf | 1 Awst 2017 | 28 Chwefror 2025 | £1,273,099 |
| **Croeso i'n Coedwig** | Treherbert, Rhondda Cynon Taf | 1 Mai 2017 | 31 Rhagfyr 2024 | £1,016,881 |
| **Llwybrau Lles Coetiroedd** | Duffryn, Casnewydd | 3 Gorffennaf 2017 | 3 Gorffennaf 2024 | £1,453,861 |

# Crynodeb o'r prosiectau

### Cwlwm Seiriol

Amcan y prosiect hwn oedd dod â chymuned Seiriol ynghyd mewn amgylchedd naturiol cynaliadwy sydd wedi'i wella a'i reoli. Y gobaith oedd gweithredu ac ail-greu model o stiwardiaeth gymunedol weithredol i reoli asedau naturiol bioamrywiol gwerthfawr.

### Roots to Shoots

Y brif nod oedd gwella mannau ffisegol a'r ffyrdd y cant eu defnyddio, a phrosiectau 'cysylltu' a fydd yn newid y ffyrdd y mae pobl yn gweld ac yn defnyddio llefydd a gweithio gyda phobl o'r gymuned i'w datblygu ymhellach.

### Ein Gardd Gefn

Pwrpas y prosiect oedd i warchod a gwella'r nifer o fannau agored ar draws cymuned Cei Connah.

### Gweledigaeth Ynysybwl

Defnyddiodd y prosiect yr amgylchedd lleol i ddatblygu prosiect fyddai'n mynd i'r afael a thlodi, sgiliau isel a salwch yn yr ardal a chreu cwm gwyrdd, cynaliadwy sy'n rhwydweithio'n dda gyda phwyslais ar asedau, busnesau a gweithgareddau a berchnogir gan y gymuned.

### Croeso i'n Coedwig

Gweithiodd y prosiect hwn gyda'r gymuned a phartneriaid i ddatblygu ffyrdd newydd o gysylltu pobl i'w hamgylchedd naturiol, gan reoli adnoddau naturiol a mannau lleol yn wahanol er budd iechyd, llesiant hyfforddiant a gwaith.

### Llwybrau Lles Coetiroedd

Gweithio y prosiect hwn gydag ardal Duffryn ac ardaloedd cyfagos i ymgysylltu â rhai o'r teuluoedd mwyaf difreintiedig wrth gynllunio, datblygu a chyflawni prosiectau a arweinir gan y gymuned. Gweithion nhw mewn partneriaeth â Growing Space, Cadw Cymru'n Daclus a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol a'r effeithiau cadarnhaol y gall eu cael ar lesiant corfforol a llesiant meddyliol trigolion lleol.

cronfagymunedolylg.org.uk